Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Drefach,
# Heol Blaenhirwaun,
# Llanelli,
# Sir Gaerfyrddin.
# SA14 7AN

**Dyddiad yr arolygiad:  Tachwedd, 2011**

**gan**

**Dr David Gareth Evans**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Saif Ysgol Drefach ar gyrion pentref Drefach yng Nghwm Gwendraeth. Nid yw'n ardal freintiedig nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Mae'r ardal yn un naturiol Gymreig, ond mae canran y boblogaeth sy'n defnyddio'r Gymraeg yn raddol leihau. Mae'r ysgol ar y brif heol rhwng Cross Hands a Llanddarog.

Ar hyn o bryd mae 34 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae'r niferoeddd wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Daw mwyafrif y disgyblion o ddalgylch yr ysgol gyda chanran fechan yn dod o'r tu allan i'r pentref. Mae'r cartrefi yn y dalgylch yn gymysgfa o dai preifat a thai rhent. Mae gan oddeutu 26% o'r disgyblion yr hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim ac mae'r ffigwr yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Nid oes yr un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol. Mae oddeutu 16% y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), sy'n llai na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad statudol o ADY.

O fewn y dalgylch, mae Canolfan Lloches i Ferched a'u plant. Mae'r plant sy'n ymuno â'r ysgol o'r Ganolfan Loches yn mynd a dod yn weddol gyson. Mae'r mwyafrif o blant sy'n cychwyn yn yr ysgol yn trosglwyddo iddi o'r cylch meithrin lleol, ac yn ddiweddarach ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dewis trosglwyddo i un o'r ddwy ysgol uwchradd sydd o fewn y dalgylch.

Er mai ysgol draddodiadol Gymraeg yw Ysgol Drefach, 17% yn unig o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae trefniant i'r nifer cynyddol o fewnfudwyr sy'n symud i'r ardal fynychu'r Ganolfan Iaith ble y darperir cwrs Cymraeg dwys ar eu cyfer. Ar hyn o bryd, mae 13% o ddisgyblion yr ysgol yn mynychu'r Ganolfan.

Arweinir yr ysgol gan bennaeth gweithredol sydd hefyd yn bennaeth ar ysgol gynradd arall gyfagos. Sefydlwyd y trefniant hwn ar ddechrau tymor yr haf 2011 fel ffederasiwn anffurfiol i gychwyn. Penodwyd yr athrawon presennol i gyd i'w swyddi ar ddechrau tymor yr arolygiad.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2005.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Drefach yw £3,956, sy'n cymharu ag uchafswm o £17,415 ac isafswm o £3,014 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 39fed uchaf o'r 114 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- yr holl ddisgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda;
- yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr;
- ansawdd yr addysgu yn dda;
- disgyblion yn cyflawni safonau lles da; a bod
- chydweithrediad clos ac effeithiol rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned leol.

Fodd bynnag:

- nid oes digon o gynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws yr ysgol;
- nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwyaf alluog wedi'i datblygu digon; ac
- ychydig iawn o'r disgyblion sydd â chyflawniad neu gyrhaeddiad digon da.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth gweithredol newydd wedi rhoi cyfeiriad pendant a gweledigaeth glir i'r ysgol mewn cyfnod byr ac wedi rheoli newid yn effeithiol iawn;
- mae'r adroddiad hunan arfarnu yn gynhwysfawr, yn onest iawn ac yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata sy'n dangos fod yr ysgol yn adnabod ei hun yn dda;
- mae cynllun datblygu'r ysgol wedi clustnodi yn gywir anghenion yr ysgol o ran codi safonau ac wedi eu blaenoriaethu'n bwrpasol;
- bod prosesau rheolaethol clir ac ymarferol yn cael eu gweithredu yn gyson ar draws yr ysgol; a
- gwnaed cynnydd cyflym mewn meysydd pwysig fel ethos yr ysgol, cysylltiadau â'r rhieni a'r gymuned a chreu strategaethu addysgu effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i’r ysgol:

A1 wella safonau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion;

A2 parhau i ddatblygu’r arferion asesu gorau ar draws yr ysgol;

A3 sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pob disgybl, gan gynnwys y disgyblion mwyaf galluog; a

A4 sicrhau sefydlogrwydd arweinyddiaeth yr ysgol.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae nifer y disgyblion sydd yn y garfan i'w hasesu ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn flynyddol yn amrywio, ac yn aml iawn yn isel. Golyga hyn bod canlyniadau un neu ddau ddisgybl ar adegau'n medru dylanwadu ar berfformiad y garfan. Oherwydd bod cyn lleied o ddisgyblion yn y carfannau, mae'n anodd gweld unrhyw batrwm clir parthed y disgyblion hynny sy'n derbyn prydau bwyd am ddim dros gyfnod.

Cymedrol yw lefelau cyfartalog y disgyblion wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae safonau yn yr holl fedrau, yn arbennig medrau cyfathrebu llafar, yn dangos cynnydd digonol o'u cymharu â chanlyniadau'r asesiadau gwreiddiol.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae disgyblion cyfnodau allweddol 1 a 2 wedi cyflawni ar lefel isel o gymharu â meincnodau lleol, cenedlaethol, teuluol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2011 cynyddodd perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 ym mathemateg a gwyddoniaeth. Yn gyffredinol, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yng nghyfnod allweddol 2.

Mewn gwersi, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymroi'n frwdfrydig i'r gweithgareddau dysgu ac yn gyffredinol yn gweithio'n gynhyrchiol gan wneud cynnydd parhaus. Mae disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd addas. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o wersi, nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn gwneud cynnydd digonol. O ganlyniad, maent yn methu cyflawni'r lefelau uwch yn yr asesiadau ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae bron y rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru cyfathrebu yn effeithiol yn y Gymraeg. Mae eu medrau llafar yn datblygu'n dda a gwnânt ddefnydd pwrpasol o'u medrau darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn medru siarad am eu gwaith â hyder cynyddol. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd yn y gwersi yng ngallu'r disgyblion i gyfrannu'n fwy estynedig ar lafar a chyfnewid syniadau.

Erbyn blwyddyn chwech mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn eu medrau llythrennedd yn y Gymraeg a Saesneg ac mae safonau ysgrifennu yn gyffredinol yn dda yn y Gymraeg erbyn diwedd blwyddyn chwech. Fodd bynnag, mae safonau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn ddigonol yn unig.

Mae cyflawniad mewn dysgu a chynnydd rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi ar draws yr ysgol yn gyffredinol addas ac yn gydnaws â'u gallu. Gall llawer alw i gof ddysgu blaenorol i bwrpas gan lwyddo i adeiladu arno yn briodol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cydweithio yn dda, yn ymateb yn briodol i'r tasgau a osodir ac i'r cwestiynau a holir gan yr athrawon. Erbyn blwyddyn chwech, mae medrau meddwl a gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol yn datblygu'n raddol. Ar y cyfan mae

mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd a TGCh yn addas ar draws yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac maent yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut y gallant gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol ac ymarfer eu cyrff trwy wersi a gweithgareddau addysg gorfforol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddisgyblion bodlon sy'n mwynhau bywyd yr ysgol ac yn mwynhau eu gwersi. Mae'r ymddygiad yn dda ar draws yr ysgol ac mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a chyfoedion. Mae bron pob un ohonynt yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd.

Mae'r gyfradd bresenoldeb, sef tua 94%, yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol ac mae bron pob un disgybl yn brydlon. Mae aelodau cyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol trwy wneud penderfyniadau pwrpasol am fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yma yn mwynhau eu cyfrifoldebau ac maent yn sylweddoli fod ganddynt lais i ddylanwadu ar fywyd a gweithgareddau dyddiol yr ysgol. Mae eu gwaith all-gyrsiol a'u hymroddiad i'r pentref a'r gymuned leol yn gadarnhaol iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynllunio diweddar ar draws yr ysgol yn dangos gwelliannau amlwg ac yn ymdrin â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod y disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a TGCh yn ddigonol gan fod y systemau newydd a weithredir yn ddiweddar heb gael yr amser priodol i ymsefydlu. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau dysgu annibynnol a sgiliau meddwl yn cael sylw pwrpasol a chyson. Maent yn agweddau amlwg ac effeithiol nawr ym mywyd dyddiol yr ysgol a gwaith disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus. Manteisir i'r eithaf ar natur gynaliadwyol yr adeilad a'r safle ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o'r arferion gorau ar gyfer gwarchod y ddaear. Rhoddir sylw helaeth i ddiwylliannau eraill, yn bennaf o ganlyniad i'r cysylltiadau â Lesoto. Defnyddir cyd-addoli yn briodol i amlygu materion sy'n ymwneud â pharch at eraill ac addysg bersonol a chymdeithasol.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n effeithiol iawn ar hyd yr ysgol trwy wersi, gweithgareddau creadigol a dathliadau priodol. Pan fo'r angen, defnyddir uned iaith yr awdurdod lleol yn effeithiol i gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg i hwyr ddyfodiaid i'r ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn yr ysgol yn dda ac mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion. Bron yn ddieithriad, mae'r berthynas rhwng athrawon a disgyblion yn un sy'n annog cwrteisi a pharch. Mae disgwyliadau athrawon yn uchel ac maent yn darparu tasgau sy'n adeiladu'n effeithiol ar brofiad blaenorol disgyblion. Mae nodau dysgu a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion yn y mwyafrif o wersi.

Trwy feithrin ethos gofalgar a chadarnhaol rheolir ymddygiad disgyblion yn dda. Mae cydweithio effeithiol y staff addysgu a chynorthwyol yn cyfoethogi ac ychwanegu at y profiadau gwerthfawr o fewn y dosbarth.

Ar y cyfan, mae marcio manwl ac ymateb adeiladol i waith disgyblion, sy'n eu helpu i ddeall sut i ddatblygu eu gwaith ysgrifenedig ymhellach.

Mae gweithdrefnau asesu a chofnodi'r ysgol yn datblygu'n addas gyda strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau gwreiddio yn y dosbarthiadau. Gosodir targedau ar gyfer canlyniadau diwedd blwyddyn a chaiff y rhain eu gwirio'n rheolaidd. Mae cyfundrefn newydd o dracio cynnydd y disgyblion yn ymwreiddio ac mae'r ysgol yn datblygu dulliau newydd o adrodd i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Ysgol ofalgar iawn yw hon sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i gynnig cynhaliaeth fugeiliol o safon uchel i'r disgyblion. Gwneir defnydd priodol o wasanaethau arbenigol i gynnal iechyd emosiynol a phersonol disgyblion ar draws yr ysgol. Mae cynlluniau penodol ar lefel dosbarthiadau unigol ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant penodol fel rhan o'r trefniadau hyn. Mae ethos yr ysgol yn sicrhau fod y disgyblion yn deall eu hawl i fod yn ddiogel. Maent yn gwybod sut i ymateb os bydd unrhyw achosion o fwlian neu anghyfiawnder.

Mae darpariaeth gyffredinol ar gyfer disgyblion ag ADY yr ysgol yn datblygu'n ddigonol. Caiff disgyblion ag ADY eu hadnabod yn fuan trwy arsylwi cyson, cyd-drafod â rhieni a chynnal asesiadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r athrawon wedi dechrau tracio cynnydd disgyblion a chynllunio gwaith perthnasol i ymateb i anghenion disgyblion. Maent hefyd yn adnabod y disgyblion mwyaf galluog ac yn paratoi ar eu cyfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu'r awyrgylch agored a hollgynhwysol. Nodwedd arbennig yw'r ethos teuluol sy'n seiliedig ar weithredu polisïau sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol. Mae hybu cydraddoldeb, cyfleoedd cyfartal, ynghyd â'r ymdeimlad o degwch i bawb, yn amlwg iawn yng ngweithgareddau'r ysgol.

Gwneir cyfraniadau da i godi ymwybyddiaeth disgyblion o'r gwahaniaethau diwylliannol sy'n bodoli a thrafodir y gwahaniaethau ethnig a chrefyddol sy'n bodoli mewn cymdeithas.

Mae'r ysgol ar safle eang ac yn darparu digon o le. Mae'r adeilad yn cynnig naws groesawgar i ddisgyblion, ac mae'n ddiogel a deniadol. Defnyddir ystafelloedd yn greadigol ac yn effeithiol i ategu addysgu a dysgu ac mae datblygiad yr ardaloedd tu allan wedi bod yn hynod o effeithiol.

Mae adnoddau'r ysgol o safon uchel. Gofelir yn dda am adeiladau'r ysgol a'r safle.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Ers penodiad y pennaeth gweithredol ym mis Mai 2011 gwnaed cynnydd cyflym mewn byr amser ym meysydd pwysig a rheolwyd newid yn dda iawn. Mae'r pennaeth gweithredol yn cydweithio'n effeithiol iawn â staff yr ysgol i greu ethos positif a gweledigaeth clir i'r dyfodol. O ganlyniad, mae gwelliant yn y cynllunio strategol sydd bellach yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r amgylchedd dysgu. Er nad yw'r holl weithgareddau wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar safonau'r disgyblion ar draws yr ysgol mae sylfeini cadarn wedi eu gosod ar gyfer rhagolygon gwella'r dyfodol.

Lluniwyd adolygiad cynhwysfawr a chytbwys o'r ddarpariaeth sy'n rhoi cyfeiriad clir ar gyfer datblygiad ysgol. Mae gan bob aelod staff swydd-ddisgrifiad benodol sy'n sicrhau eu bod yn deall eu rôl o ran gweithredu cynlluniau'r ysgol. Er hynny, mae'r ansicrwydd ar lefel arweinyddiaeth a reolaethol yr ysgol yn parhau.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus iawn gan sicrhau adnoddau addas sy'n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae asesu ar gyfer dysgu yn ymwreiddio bellach o fewn gwersi ac yn cyfrannu'n addas at godi safonau.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn gynyddol ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn dechrau monitro'r addysgu yn rheolaidd ar draws ardaloedd y cwricwlwm ac yn chwarae rôl briodol yn rheoli perfformiad y pennaeth. Maent yn dechrau defnyddio data yn fwy effeithiol i adnabod cryfderau ac ardaloedd i'w gwella ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae eu rôl fel cyfeillion beirniadol i'r ysgol yn datblygu'n addas.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn dda ac mae ymrwymiad cryf i hybu gwelliant ar draws yr ysgol. Caiff data cymharol ei ddadansoddi'n dda. Erbyn hyn, mae trefniadau effeithiol ar gyfer ystyried barn disgyblion a rhieni, yn ogystal ag argymhellion swyddogion gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol, wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae trefniadau addas ar gyfer monitro'r ddarpariaeth. Mae gweithdrefnau clir yn eu lle ar gyfer arsylwi'r addysgu, edrych ar waith disgyblion a thrafod a holi disgyblion a staff. Cofnodir y wybodaeth yn effeithiol a'i drosglwyddo i'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r adroddiad hunan-arfarnu'n gynhwysfawr, yn arfarnol ac yn dwyn sylw dyledus i gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen sylw pellach. Mae'r staff i gyd yn rhan o greu'r adroddiad ac mae'r disgyblion, trwy'r cyngor ysgol, yn cael mewnbwn iddo. Defnyddir holiaduron i'r rhieni yn bwrpasol er mwyn derbyn eu sylwadau hwy a derbyniant ystyriaeth lawn. Mae deilliannau'r broses hunanarfarnu yn sail i'r blaenoriaethau sydd yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau datblygiad proffesiynol effeithiol sy'n berthnasol i anghenion y staff unigol ac sydd â chysylltiad cryf â'r blaenoriaethau o fewn y cynllun datblygu. Mae trefn briodol o reoli perfformiad staff, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu'r elfen o rwydweithio mewnol trwy rannu arferion da yr addysgu, cymedroli gwaith a thrafod a chynnig datblygiadau ar gyfer gwella'r dysgu. Cydweithir yr ysgol hefyd ag ysgolion y dalgylch i gynllunio a gweithredu datblygiadau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod dda o bartneriaethau gyda'r awdurdod lleol, y gymuned, gwasanaethau cymorth, y Cylch Meithrin a gynhelir ar dir yr ysgol a'r clwstwr lleol o ysgolion. Yn yr un modd, mae'r trefniadau trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd lleol yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Caiff pob un o'r partneriaethau hyn effaith gref ar safonau cyflawniad a lles disgyblion.

Cyfathrebir yn dda gyda rhieni ac maent yn teimlo eu bod yn rhan o fywyd yr ysgol. Mae rhieni ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion yn yr ysgol ac yn yr ardal. Mae trefniadau sefydledig ac effeithiol ar waith i alluogi disgyblion i drosglwyddo'n llwyddiannus i addysg uwchradd.

Mae'r ysgol yn cyd-weithio yn dda ar gynllun cymedroli safonau cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgolion cyfun.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cymorth cymwys. Caiff y rhain eu defnyddio'n effeithiol ac mae'r hyfforddiant a gânt wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol. Mae uwch arweinwyr a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb ac adnoddau'r ysgol yn dda ac yn adolygu'r gwariant yn briodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon a'r cytundeb baich gwaith wedi'i drefnu'n dda. Mae athrawon yn defnyddio'r cyfleoedd hyn yn effeithiol.

Mae'r gwariant yng nghynlluniau datblygu'r ysgol yn cael ei gynllunio a'i gofnodi'n ofalus, yn arbennig ar gyfer anghenion staffio. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran ansawdd yr addysgu, y gofal, cymorth a'r arweiniad ac ansawdd gadarn yr arweinyddiaeth.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 1, yn gyffredinol, mae canlyniadau asesiadau athrawon mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn bell o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y dangosydd pwnc craidd, sef canran y disgyblion sy'n ennill o leiaf lefel dau mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, hefyd yn is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Pan gymharir canlyniadau cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion eraill tebyg, gan ddefnyddio y dangosydd cinio am ddim, roedd canlyniadau Cymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd fel arfer yn y pedwerydd chwartel dros y pedair blynedd diwethaf.

Pan gymharir gydag ysgolion o'r un teulu, mae canlyniadau yn y tri phwnc craidd a'r dangosydd pwnc craidd yn gyffredinol wedi bod yn bell o dan cyfartaledd y teulu am bedair blynedd. Mae nifer y disgyblion enillodd y lefel 3 uwch yn y pynciau craidd hefyd yn is o lawer na chyfartaleddau'r teulu. Fel arfer, mae'r bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched dros gyfnod o amser.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae patrwn tebyg i gyfnod allweddol 1 dros y pedair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is o lawer na'r cyfartaleddau cenedlaethol, lleol a rhai y teulu o ysgolion. Pan gymharir canlyniadau cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion eraill tebyg, gan ddefnyddio y dangosydd cinio am ddim, roedd canlyniadau Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd fel arfer yn y pedwerydd neu'r trydydd chwartel dros y pedair blynedd diwethaf.

Pan gymharir gyda'r teulu o ysgolion, mae canlyniadau'r tri phwnc craidd a'r dangosydd pwnc craidd yn gyffredinol wedi bod yn is na'r cyfartaleddau teulu am y tair blynedd diwethaf. Mae nifer y disgyblion sy'n ennill y lefel 5 uwch hefyd wedi bod yn is o lawer na'r cyfartaleddau cymharol yn ystod yr un cyfnod.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Ymatebodd pump o rieni neu ofalwyr i’r holiadur. Roedd pawb yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol; roedd pawb yn cytuno bod eu plant yn hoffi'r ysgol; a phawb yn cytuno y cafodd eu plant gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuasant yn yr ysgol. Roedd pawb yn cytuno bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch; a phawb yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd y plentyn. Roedd pob un yn teimlo bod y staff yn disgwyl i’w plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau; bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn dysgu yn yr ysgol; a theimlo bod eu plant yn gwneud cynnydd da.

Mae pawb yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol; bod disgyblion yn ymddwyn yn dda; a bod yr addysgu’n dda. Hefyd, mae pawb yn teimlo bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent hefyd yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. Teimlant bod yr ysgol yn helpu’u plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; bod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Roedd pob un yn meddwl bod cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Mae llawer yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 14 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm â’r disgyblion yn ystod yr arolygiad. Mae pob un yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, yn datgan bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff, bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith ac eu bod yn gwybod beth i’w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd. Mae bron phob un yn dweud fod yr athrawon yn eu haddysgu’n effeithiol ac yn eu helpu i wneud cynnydd. Mae bron pob un yn dweud fod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio ac yn eu dysgu sut i aros yn iach. Mae llawer yn datgan eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Oddeutu 57% yn unig o ddisgyblion ymatebodd fod ymddygiad yn dda amser chwarae ac amser cinio a 71% ymatebodd fod plant eraill yn ymddwyn yn dda o fewn yr ysgol ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio. Nid dyma ganfyddiad y tîm arolygu o fod yn arsylwi ymddygiad o fewn dosbarthiadau, yn ystod amser chwarae ac o ganlyniad i holi dysgwyr wyneb yn wyneb.

.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Enir R. Morgan | Arolygydd Tîm |
| Mr Gwilym Davies | Arolygydd Lleyg |
| Mr Terry L. Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Manon W. Jones | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |